

OWEN, JOHN (1733 - 1776), pregethwr cyntaf Methodistiaid sir y Fflint

Enw: John Owen
Dyddiad geni: 1733
Dyddiad marw: 1776
Priod: Mary Owen (née Edwards)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pregethwr cyntaf Methodistiaid sir y Fflint
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Edward Davies

Ganwyd yn 1733 ym Mwrcwd, plwyf Ysgeifiog, Sir y Fflint. Brodorion o Aberdaron yn Llŷn oedd ei rieni, a bu iddynt bedwar o blant - John, Humphrey, Sarah, ac Ann. Saer oedd John wrth ei alwedigaeth, a phrydydd dawnus. Cyfansoddodd anterliwtiau, ac yr oedd yn chwaraewr poblogaidd ym more'i oes. Dychwelodd at grefydd tua'r flwyddyn 1762, trwy bregeth [Daniel Rowland](#) yn Nhŷ Modlen, Llandyrnog, Dyffryn Clwyd. Ar 22 Rhagfyr 1763 priododd â Mary Edwards, Plas Llangwyfan, ac aethant i fyw i'r Berthen Gron yn ei blwyf genedigol, ac yn fuan agorwyd y tŷ i'r diwygwyr o'r Deheudir. Yr oedd Mary Owen yn wraig anghyffredin; aeth ar ei merlen saith o weithiau i Langeitho, pellter o dros 200 milltir yn ôl a blaen, i geisio pregethwyr i ddod i'r Berthen a Dyffryn Clwyd. Yn 1766 dechreuodd John Owen bregethu. Daeth Humphrey, ei frawd, hefyd yn bregethwr cymeradwy, a dioddefodd y ddau erledigaethau chwerw. Yn 1775 dechreuodd John Owen godi y capel cyntaf ar ei gost ei hun, ac yr oedd yn barod i'w agor yn 1776. Aeth i Langeitho i geisio gan [Daniel Rowland](#) ddyfod i'w agor, ond bu farw yn Llangurig wrth ddychwelyd yn ôl, a chladdwyd ef ym mynwent Ysgeifiog ar 8 Awst 1776; daeth [Daniel Rowland](#), yn ôl ei addewid. Bu Mary Owen farw ar 5 Ebrill 1789 yn 51 mlwydd oed a chladdwyd hi ym meddrod ei phriod.

Awdur

Edward Davies

Ffynonellau

Y Drysorfa, 1839, 84

Methodistiaeth Cymru (1851–6), iii, 141

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd, ii, 91; v, 31; xxiv, 84

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733584](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733584)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

